O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2015 Rhif 2080 (Cy. 316)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Twnnel Pen-y-clip, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Gwaharddiadau a Chyfyngiad Traffig Dros Dro) 2015

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *29 Rhagfyr 2015* |
| *Yn dod i rym* | *5 Ionawr 2016* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Caer – Bangor (yr A55) ("y gefnffordd") wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a/neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 5 Ionawr 2016 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Twnnel Pen-y-clip, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Gwaharddiadau a Chyfyngiad Traffig Dros Dro) 2015.

**2.** (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn; a

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r awyrlu ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn

ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron sy'n aelod o'r lluoedd arbennig-

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel.

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 19:00 o'r gloch ar 5 Ionawr 2016 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr "lluoedd arbennig" *("special forces")* yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw;

ystyr "marciau ymyl y gerbytffordd" ("*edge of the carriageway markings*") yw'r marciau a ddangosir yn rhifau Diagram 1002.1 a 1009 yn Rheoliadau a Chyfarwyddiadau Cyffredinol Arwyddion Traffig 2002**(3)**;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw'r darnau o'r gefnffordd ym Mhen-y-clip ym Mwrdeistref Sirol Conwy a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiadau a Chyfyngiad**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 16, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei yrru ar naill ai gerbytffordd tua'r dwyrain neu gerbytffordd tua'r gorllewin y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**4.** (1) Tra bo cerbydau wedi eu gwahardd gan erthygl 3, rhag symud ar y gerbytffordd tua'r dwyrain ond, yn unol ag erthygl 16, heb eu gwahardd rhag symud ar y gerbytffordd tua'r gorllewin, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd er mwyn peri neu ganiatáu iddo:

(a) mynd ar lôn allanol y gerbytffordd tua'r gorllewin i unrhyw gyfeiriad ac eithrio i'r dwyrain;

(b) mynd i unrhyw gyfeiriad ac eithrio i'r dwyrain drwy'r bylchau yn llain ganol y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 5.

(2) Tra bo cerbydau wedi eu gwahardd gan erthygl 3, rhag symud ar y gerbytffordd tua'r gorllewin ond, yn unol ag erthygl 16, heb eu gwahardd rhag symud ar y gerbytffordd tua'r dwyrain, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd er mwyn peri neu ganiatáu iddo:

(a) mynd ar lôn allanol y gerbytffordd tua'r dwyrain i unrhyw gyfeiriad ac eithrio i'r gorllewin;
(b) defnyddio neu ganiatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd cerbyd arall ar gerbytffordd tua'r dwyrain y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2;
(c) mynd i unrhyw gyfeiriad ac eithrio i'r gorllewin drwy'r bylchau yn llain ganol y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 5.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 16, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei yrru ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 3 a 4.

**6.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 16, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4.

**7.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 16, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd sy'n 3.2 metr o led neu'n lletach fynd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 6.

**8.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 16, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal, na pheri i unrhyw feic pedal o'r fath gael ei reidio ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 7.

**9.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 16, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 8.

**Atal Dros Dro**

**10.** Drwy hyn, mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd (yr A55) (Ardal Pen-y-clip, Gwynedd) (Traffig Unffordd) 1994**(4)** wedi eu hatal, i'r graddau y maent yn ymwneud â lon allanol cerbytffordd tua'r dwyrain y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 ar

yr adegau hynny pan fo'r gerbytffordd tua'r gorllewin ar gau yn unol ag erthygl 3.

**11.** Drwy hyn, mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Ardal Pen-y-clip, Gwynedd) (Dileu Cyfyngiadau) 1994**(5)** wedi eu hatal mewn perthynas â'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4 ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 6 yn weithredol.

**12.** Drwy hyn, mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Penmaenmawr – Morfa Conwy, Conwy) (Dileu Cyfyngiadau) 2004**(6)** wedi eu hatal mewn perthynas â'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4 ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 6 yn weithredol.

**13.** Drwy hyn, mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd (yr A55) (Llanfairfechan, Gwynedd) (Dileu Cyfyngiadau) 1989**(7)** wedi eu hatal mewn perthynas â'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4 ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 6 yn weithredol.

**14.** Drwy hyn, mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd (yr A55) (Penmaenmawr, Gwynedd) (Dileu Cyfyngiadau) 1989**(8)** wedi eu hatal mewn perthynas â'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4 ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 6 yn weithredol.

**15.** Drwy hyn, mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Abergwyngregyn, Gwynedd) (Dileu Cyfyngiadau) 1994**(9)** wedi eu hatal mewn perthynas â'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4 ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 6 yn weithredol.

**Cymhwyso**

**16.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5, 6, 7, 8 a 9 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau a'r cyfyngiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**17.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 29 Rhagfyr 2015

*Richard Morgan*
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi.
**(2)** Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
**(3)** O.S. 2002/3113
**(4)** O.S. 1994/192
**(5)** O.S. 1994/790
**(6)** O.S. 2004/2876 (Cy.247)
**(7)** O.S. 1989/2158
**(8)** O.S. 1989/1958
**(9)** O.S. 1994/3087

## YR ATODLENNI

### ATODLEN 1
### Y gwrthlif

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 97 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 15 (Cylchfan Llanfairfechan) hyd at bwynt 208 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt trosbont Traphont y Red Gables.

### ATODLEN 2
### Dim goddiweddyd

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd ar y pentir sy'n ymestyn o bwynt 97 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 15 (Cylchfan Llanfairfechan) hyd at bwynt 208 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt trosbont Traphont y Red Gables.

### ATODLEN 3
### Cau Cyffordd Gorllewin Penmaenmawr a Ffordd Ymadael tua'r Dwyrain Cyffordd 15a

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r ffordd sirol a elwir Ffordd Bangor hyd at farciau ymyl y gerbytffordd ar ochr ddeheuol prif gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd.

Y darn cyfan o ffordd ymadael tua'r dwyrain y gefnffordd wrth Gyffordd 15a.

### ATODLEN 4
### Gwahardd cerbydau a therfyn cyflymder 40 mya

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt yr ynys hollti ar y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 13 (pentref Abergwyngregyn), hyd at bwynt 100 metr i'r dwyrain

o ganolbwynt Cyffordd 16 (Cylchfan y Puffin), gan gynnwys y ffordd ymuno tua’r dwyrain wrth Gyffordd 14 (Cyfnewidfa Madryn), y ffordd ymadael tua’r dwyrain wrth Gyffordd 15a a’r bylchau yn y llain ganol a nodir yn Atodlen 5.

Y darn o gerbytffordd tua’r gorllewin y gefnffordd sy’n ymestyn o bwynt 100 metr i’r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 16 (Cylchfan y Puffin), gan gynnwys ffordd ymuno tua’r gorllewin y gyffordd hon, hyd at ganolbwynt y drosbont wrth Gyffordd 14 (Cyfnewidfa Madryn), gan gynnwys y bylchau yn y llain ganol a nodir yn Atodlen 5.

## ATODLEN 5
## Terfynau’r bylchau yn y llain ganol

Y bwlch yn y llain ganol sydd rhwng pwynt 78 o fetrau i’r dwyrain o ganolbwynt trosbont Traphont y Red Gables a phwynt 208 o fetrau i’r dwyrain o’r drosbont honno.

Y bwlch yn y llain ganol sydd rhwng pwynt 97 o fetrau i’r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 15 (Cylchfan Llanfairfechan) hyd at bwynt 226 o fetrau i’r dwyrain o’r gylchfan honno.

## ATODLEN 6
## Cyfyngiad ar led cerbydau

Y darn o gerbytffordd tua’r dwyrain y gefnffordd sy’n ymestyn o bwynt 25 o fetrau i’r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 15 (Cylchfan Llanfairfechan) hyd at ddiwedd y trwyniad lle y mae’r ffordd ymuno tua’r dwyrain yn uno â phrif gerbytffordd yr A55 wrth Gyffordd 18 (Cyfnewidfa Cyffordd Llandudno).

Y darn o gerbytffordd tua’r gorllewin y gefnffordd sy’n ymestyn o ddechrau’r trwyniad lle y mae’r ffordd ymadael tua’r gorllewin yn uno â phrif gerbytffordd yr A55 wrth Gyffordd 18 (Cyfnewidfa Cyffordd Llandudno) hyd at bwynt 25 o fetrau i’r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 15 (Cylchfan Llanfairfechan), gan gynnwys y ffyrdd ymuno tua’r gorllewin wrth Gyffordd 18 a Chyffordd 17.

## ATODLEN 7
## Gwahardd beicwyr

Y darn o gerbytffordd tua’r dwyrain y gefnffordd sy’n ymestyn o drwyniad ynys hollti Cyffordd 14, i gyfeiriad y dwyrain o amgylch Pentir Pen-y-clip i’r groesfan ag arwyddion i gerddwyr sy’n agos at borth dwyreiniol Twnnel Pen-y-clip, gan gynnwys y darn o’r droetffordd sy’n ymestyn o ganolbwynt y drosbont i gerddwyr i’r dwyrain o Gyffordd 15, i gyfeiriad y

dwyrain i'r groesfan ag arwyddion i gerddwyr sy'n agos at borth dwyreiniol Twnnel Pen-y-clip.

**ATODLEN 8**
**Gwahardd cerddwyr**

Y darn o'r droetffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt y drosbont i gerddwyr i'r dwyrain o Gyffordd 15, i gyfeiriad y dwyrain i'r groesfan ag arwyddion i gerddwyr sy'n agos at borth dwyreiniol Twnnel Pen-y-clip.